

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 1 RHAGFYR 2021

Yn bresennol: Y Cadeirydd Hefin Jones.

Y Cynghorwyr: A. Huw Jones, Elfed Roberts, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol).

Ymddiheuriadau: Richard Davies, Elfed Wyn ap Elwyn, Helen W. Jones, Keith O'Brien, Annest Smith.

Gan nad oes Clerc ar hyn o bryd cymerwyd y cofnodion gan y Swyddog Ariannol.

2200 - Nodwyd siom bod cymaint o Gynghorwyr wedi ymddiheuro a bod rhai heb fynychu y cyfarfod ac heb ymddiheuro. Cytunwyd bod cworwm yn bresennol er mwyn parhau gyda'r cyfarfod gan bod y Cynghorydd Sir yn bresennol.

2201 – COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd yn amodol ar faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2021.

2202 – MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) – Garej Lôn – Adroddwyd nad oes ymateb pellach.

1774(4) Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo - Adroddwyd nad oes adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) – Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber – Adroddwyd nad yw y Cynghorydd Elfed Roberts wedi derbyn adroddiad pellach. Adroddodd y Cynghorydd A. Huw Jones ei fod yn bryderus iawn bod ceir yn gor-yrru trwy Bronaber a cytunwyd ysgrifennu i Lee Walters. Adroddwyd bod Bro Cast am gynhyrchu ffilm o'r sefyllfa a bydd y cynhyrchiad yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru dechrau'r flwyddyn.

1962 (1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal. Mae holiadur i'w gwblhau ar y we gyda chopiau caled ar gael yn Siop Glyndwr.

2024 (4) Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod Bro Cast am gynhyrchu ffilm o'r sefyllfa a bydd y cynhyrchiad yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru dechrau'r flwyddyn. Derbyniwyd gopi o lythyr oedd wedi ei anfon i Lee Walters gan Mabon ap Gwynfor a cytunwyd aros am adroddiad pellach.

2068 (2) Mynwent Pen Cefn – Adroddwyd nad yw Marcus Smith am godi tâl am ladd y chwyn ym Mynwentydd Pencefn a Salem a cytunwyd anfon nodyn o ddiolch iddo. Adroddwyd ymhellach bod Guto Tomos wedi cael damwain yn ddiweddar felly nid yw yn bosib iddo fesur y tir ar hyn o bryd. Cytunwyd anfon cerdyn 'Gwellhad Buan' i Guto Tomos.

2085 (3) Llys Ednowain – Cadarnhawyd bod llythyr pellach ac anfoneb wedi eu hanfon i Traws-Newid ond nid oes unrhyw ymateb. Cytunwyd anfon llythyr arall yn eu hysbysu y bydd y mater yn cael ei roi yn nwylo y cyfreithiwr os nad fydd ymateb.

2092 (4) – Parcio ger yr Ysgol – Yr oedd y Cynghorydd Elfed Roberts wedi ceisio cysylltu gydag Andrew Gregson Cyngor Gwynedd sawl gwaith ond nid oedd wedi derbyn unrhyw ymateb. Cytunwyd anfon ebost iddo yn datgan siom y Cyngor yn y diffyg ymateb.

2092 (6) Llysiau'r Dial (Japanese Knotweed) – Cytunwyd gadael y mater ar y cofnodion tan Gwanwyn 2022.

2099 (6) Marciau Gwyn – Yr oedd y Cynghorydd Elfed Roberts wedi ceisio cysylltu gydag Andrew Gregson Cyngor Gwynedd sawl gwaith ond nid oedd wedi derbyn unrhyw ymateb. Cytunwyd anfon ebost iddo yn datgan siom y Cyngor yn y diffyg ymateb.

2107 (2) Dalgylch Ysgolion – Cytunwyd aros am adroddiad gan y Cynghorydd Anest Smith.

2120 (3) Dwr yn llifo ar draws ffordd Penstryd a Pant Glas – Adroddwyd nad oes ymateb wedi ei dderbyn oddiwrth Adrian Williams Cyngor Gwynedd.

2126 (3) Binau Halen – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bod Cyngor Gwynedd yn treialu contractwyr i glirio y ffyrdd bach a bydd y broses yn cychwyn yn fuan. Mae yn aros i dderbyn gwybodaeth pellach am y camau nesaf.

2150 (1) Stryd Gefn Bro Prysor (rhwng 1 a 6) – Derbyniwyd ateb gan Adra yn cadarnhau bod y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynnal a Chadw yn edrych i mewn i'r mater ac yn gwneud ymholiadau gyda'u cyfreithwyr. Derbyniwyd copi o ebost pellach sydd wedi ei anfon i Adra gan un o'r trigolion cyfagos yn nodi pryderon. Cytunwyd cysylltu gydag Adra i awgrymu y posibilrwydd o ledw y llwybr cerdded o ffordd Bro Prysor fel bod y trigolion yn cael mynediad i'w heiddo.

2161 (2) – Cae o dan Bryn y Gofeb a'r wal derfyn – Cytunodd y Cynghorydd Dewi Williams i gael golwg ar y safle.

2161 (8) – Llwybr o Stesion i Blaen Cwm – Cytunwyd aros am adroddiad gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn.

2161 (9) – Pergola Gardd Salem – Adroddodd y bod y Dref Werdd wedi cadarnhau y byddai yn dderbyniol archebu potiau plannu safonol ar gyfer Sgwar y Pentref yn lle y Pergola. Cytunwyd cysylltu gyda Beatrice Beale i ofyn cyngor. Cytunwyd y byddai y Cyngor yn cyfrannu £500 tuag at y costau.

2162(2) – Sedd Wag y Cyngor – Cytunwyd cyfethol Aron Roberts i lenwi y sedd wag.

2171 (1) Swydd y Clerc – Gan nad oes neb wedi dangos diddordeb yn y swydd cytunwyd hysbysebu yn Llafar Bro.

2176 (1) - Mynwent Pencefn – Adroddwyd y bydd y 2 hysbysfwrdd newydd yn cael eu gosod pan fydd y tywydd yn caniatáu.

2177(1) – Dewi Lake – Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i Dewi Lake ar ei ymddeoliad fel Pennaeth Ysgol y Moelwyn ar ddiwedd y tymor.

2177(4) – Parc Bryn Glas – Cytunwyd gofyn i'r Cynghorydd Enid Roberts am ddiweddariad.

2182(1) – Lloches Bws Maes Gwyndy – Derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau eu bod am gysylltu gyda'r cwmnïau priodol i geisio datrus y broblem. Bu iddynt gadarnhau mae y Cyngor Cymuned sydd yn cyfrifol am gynnal a chadw y lloches newydd. Derbyniwyd ebost pellach yn cynnig gosod panel arall ar flaen y lloches a cytunwyd derbyn y cynnig ond dylid gofyn iddynt roi sylw i'r slab concrit i arbed y dwr rhag crynhoi. Hefyd, derbyniwyd ebost gan un o'r trigolion cyfagos yn nodi ei cwyn a cytunwyd ateb yn cadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi y cwynion ac am anfon ei ebost ymlaen i Cyngor Gwynedd.

2184(1) - Fandaliaeth Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Cadeirydd nad oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth pellach gan yr Heddlu.

2184(3) – Mae y Cadeirydd yn aros am gadarnhad gan Eirian Humphreys fod y cofnodion a’r dogfennau eraill yn barod i’w casglu.

2184(4) – Rhiwgoch – Cytunwyd cysylltu ymhellach gyda Swyddog Cynllunio (Cydydffurfiaeth) Awdurod Parc Cenedlaethol Eryri i ofyn os unrhyw ddatblygiad pellach.

2184(6) – Gordyfiant ar y llwybr o amgylch y Llyn – Cytunodd y Cynghorydd Enid Roberts i drefnu i gael map o’r llwybr a’i osod yn yr hysbysfwrdd yn Sgwar y Pentref.

2184(7) – Ffens cae chwarae Bro Prysor – Cytunwyd gadael y mater ar y cofnodion hyd nes bydd y gwaith wedi ei wneud.

2185(1) – Datblygu Tai Cymunedol – Cytunwyd aros am adroddiad gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn.

2185(2) – Cynllun Mentro – Cytunwyd aros am adroddiad gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn.

2192(1) – Gordyfiant gwrych rhiw Pencefn – Adroddwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

2192(2) – Coeden Nadolig – Adroddwyd bod y goeden ar y safle. Cytunodd y Cadeirydd a’r Cynghorydd Idwal Williams i osod y goleuadau pan fyddent wedi cyrraedd.

2196(4) – Polisi Cwynion – Y Swyddog Ariannol i ddiweddarau polisi y Cyngor.

2198(2) – Tir Glanllynau Duon Bronaber – Mae y Cynghorydd Elfed Roberts wedi trafod y mater gydag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd wedi cadarnhau ar lafar nad ydynt yn cefnogi yr ail-wylltio.

2198(3) – Derbyniwyd ateb gan y Feddygfa a cytunwyd anfon llythyr o ddiolch iddynt a gofyn am ganiatad i rannu eu llythyr os bydd angen.

2198(5) – Cytunodd y Cadeirydd i gysylltu gyda’r Cynghorydd Bryn Jones.

2203 – GOHEBIAETH

- (1) Cais cynllunio - Ehangu decin presenol a gosod stepiau ychwanegol - Caban 324, Trawsfynydd Holiday Village, Bronaber LL41 4YB – cytunwyd derbyn a chefnogi y cais.
- (2) Copi o lythyr Mabon ap Gwynfor i Lee Walters Llywodraeth Cymru parthed arwyddion ffordd Bala.
- (3) Llythyr Llywodraeth Cymru – Gwariant 137.
- (4) Un Llais Cymru – agenda Cyfarfod Ardal Meirionnydd 8.12.21.

2204 – ADRODDIAD ARIANNOL

Cadarnhawyd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

2205 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- (1) Cytunwyd gwneud ymholiadau ynglyn a cynnwys pasbort Cofid yn yr asesiad risg.
- (2) Cytunwyd gwneud ymholiadau ynglyn a gwneud rhodd i'r Clerc dros dro.

2206 – MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

- (1) Praesept 2022/23.

Nid oedd adroddiadau o'r cyfarfodydd yn ystod y mis.

CYFARFOD NESAF – 5 IONAWR 2022